# Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion
# Llwybr Cais am Gymorth 2022-23

Yn y ddogfen hon fe welwch wybodaeth am gymorth sydd ar gael ar gyfer lleoliadau addysg Uwchradd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg gan y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion. Mae'n dangos y ffyrdd y bydd y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yn ymateb i geisiadau am gymorth gan ddarparwyr addysg a chanlyniadau posibl y ceisiadau hyn.

## Cyfarfodydd blaenoriaethu

I gydlynu sut y gall y gwasanaeth Mewngymorth gefnogi'r lleoliad addysg orau dros y tymor nesaf.

- Cyngor, Cyswllt a Chyfeirio
- Hyfforddi staff a chymorth gydag argymhellion
- Darpariaeth grŵp y cytunwyd arni ar gyfer y tymor nesaf

## Ymgynghoriadau

Cynnal trafodaeth fwy manwl am ddysgwr penodol neu thema lles ac iechyd meddwl

### Cyngor ac arweiniad

### Prosiectau peilot

### Asesu

Os caiff angen ei amlygu yn ystod yr ymgynghoriad; cynhelir trafodaeth â'r dysgwr i gael dealltwriaeth o ba gefnogaeth y gallai fod yn ddefnyddiol

### Hyfforddi staff

### Ymgynghoriadau parhaus

Cynnig ymyrraeth uniongyrchol

- Gwaith grŵp
- Un-wrth-Un

Bydd y rhan fwyaf o gefnogaeth y Mewngymorth Ysgolion gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn lleoliadau addysg, gyda chyfran fechan o'r amser yn cael ei neilltuo i waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r model hwn yn cyd-fynd ag argymhellion gan raglenni peilot Mewngymorth CAMHS a fframwaith NEST | NYTH.

Emotional Wellbeing & Mental Health
Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl
CYPF Children, Young People & Family Health Services
PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Proses Cais am Gymorth

Bydd pob cais am gymorth yn cael ei drafod i ddechrau mewn cyfarfodydd blaenoriaethu.

## 1 Cyfarfodydd blaenoriaethu

**Pam?**
I gydlynu sut y gall y gwasanaeth Mewngymorth gefnogi'r lleoliad addysg orau dros y tymor nesaf.

**Pwy?**
Cyswllt lleoliad addysg allweddol ac uwch ymarferydd iechyd meddwl eich ardal leol. Mewn cytundeb â'r lleoliad addysg, gellir gwahodd gweithwyr proffesiynol eraill hefyd er mwyn gallu ystyried darpariaeth les yn ehangach. Gallai hyn gynnwys; Seicolegwyr Addysg, nyrsys ysgol, athrawon arbenigol neu ymarferwyr lles eraill sy'n gweithio o fewn y lleoliad.

**Ble?**
Dull cyfunol wyneb yn wyneb neu ar-lein yn dibynnu ar argaeledd lleoliadau addysg.

**Pryd?**
Cyfarfod 2 awr ar ddechrau pob tymor

### Beth allai gael ei drafod?

- **Dysgwyr penodol mae’r lleoliad addysg wedi nodi bod ganddynt anghenion lles heb eu diwallu (angen caniatâd rhieni cyn trafod)**
- **Themâu lles ac iechyd meddwl eang yr hoffai'r lleoliad gymorth i fynd i'r afael â nhw**

### Beth allai'r canlyniad fod?

- Slotiau ymgynghori y cytunwyd arnynt ar gyfer y tymor nesaf, gan gynnwys lle ar gyfer ymgynghoriadau 'ad-hoc'.
- Darpariaeth grŵp y cytunwyd arni ar gyfer y tymor nesaf, a chytundeb y dysgwyr sydd fwyaf tebygol o elwa
- Hyfforddiant a chymorth i staff, gan gynnwys argymhellion a chynllunio
- Cyngor, Cysylltu a Chyfeirio

# Proses Cais am Gymorth

## 2 Ymgynghoriadau

**Pam?**
I gael cynnal trafodaeth fwy manwl am ddysgwr penodol neu thema lles ac iechyd meddwl.

**Pwy?**
Aelod(au) staff sydd â gwybodaeth am y dysgwr, neu y mae thema'r drafodaeth yn effeithio arnynt (neu y mae ganddynt gyfrifoldeb drosti). Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei hwyluso gan uwch ymarferydd iechyd meddwl eich ardal leol. Gellir gwahodd gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r dysgwr, neu sydd â gwybodaeth a phrofiad i'w rhannu ynglŷn â'r thema hefyd.

**Ble?**
Dull cyfunol wyneb yn wyneb neu ar-lein yn dibynnu ar argaeledd lleoliadau addysg

**Pryd?**
Pa mor aml i'w benderfynu mewn cyfarfodydd blaenoriaethu. Ar gyfer y mwyafrif o leoliadau bydd cyfres o slotiau ymgynghori ar gael bob pythefnos.

## Beth allai gael ei drafod?

- **Dysgwr penodol -** Bydd ymgynghoriadau yn para rhwng 30 a 60 munud, yn ddibynnol ar gymhlethdod yr angen. Cytunir ar hyn fel rhan o'r broses cynllunio blaenoriaethu, a rhoddir arweiniad ar y wybodaeth sydd ei hangen cyn yr ymgynghoriad a phwy fyddai orau i fynychu.
- Gall ymgynghoriad hefyd ddarparu lle i adfyfyrio a dysgu mewn ymateb i themâu a nodwyd yn y lleoliad, yn unol â'u dull gweithredu ysgol gyfan.

## Beth allai'r canlyniad fod?

- Cyngor ac arweiniad i gefnogi'r lleoliad addysg i gwrdd ag anghenion emosiynol a iechyd meddwl dysgwyr a staff
- Darparu hyfforddiant staff
- Mae prosiectau peilot yn cael eu creu lle nodir bylchau o ran diwallu anghenion. Mae esiamplau'n cynnwys cynlluniau mentora lles disgyblion a hwyluso gofodau myfyriol a lles i staff addysg.
- Ymgynghoriadau parhaus i staff addysg, i wirio a pharhau â chymorth
- Asesiad iechyd meddwl gyda dysgwr a/neu ei deulu

Ffocws y gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yw darparu cymorth lles anuniongyrchol i Blant a Phobl Ifanc trwy feithrin sgiliau a hyder pawb sy'n gweithio o fewn lleoliadau addysg. Bydd y rhan fwyaf o gyswllt felly gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn lleoliadau addysg, gyda chyfran lai o'r amser yn cael ei neilltuo i waith uniongyrchol gyda Phlant a Phobl Ifanc. Dim ond ar ôl ymgynghori a darparu cyngor ac arweiniad i dîm y lleoliad addysg y bydd gwaith uniongyrchol yn cael ei ystyried, a phan fod angen wedi ei nodi ar gyfer asesu ac ymyrraeth iechyd meddwl mwy arbenigol.

# Proses Cais am Gymorth

(Os amlygir angen hyfforddiant staff yn ystod cyfarfodydd blaenoriaethu neu ymgynghori)

## 3 Hyfforddiant

**Pam?**

Uwchsgilio staff addysgol i allu cefnogi anghenion emosiynol a lles meddyliol dysgwyr yn well.

**Pwy?**

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei hwyluso gan aelodau o Dîm Mewngymorth Ysgolion, a gellir ei fynychu gan unrhyw un sy'n gweithio o fewn y byd addysg. Gall hyfforddiant sylfeini fod o fudd i grwpiau staff cyfan, tra gall pynciau arbenigol fod yn fwy priodol i rai mewn rolau penodol e.e. Cydlynwyr ADY, staff bugeiliol, arweinwyr lles, oedolion allweddol.

**Ble a phryd?**

Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn ysgolion unigol, neu fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant Mewngymorth mynediad agored fydd ar gael i bawb ei mynychu.

## Pa fath o hyfforddiant sydd ar gael?

### Sesiynau Dysgu Byr

Trosolwg cryno o bynciau lles emosiynol a iechyd meddwl

### Y Sylfeini

Gweminarau yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch sut i gefnogi dysgwyr yn gyffredinol

### Adeiladu Gwybodaeth

Gweminarau a gweithdai sy'n adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth ar bynciau a grwpiau mwy penodol

### Pecyn Cymorth Therapiwtig

Gweithdai rhyngweithiol sy'n meithrin sgiliau a gwybodaeth i gyflwyno ymyriadau lles emosiynol

## Ein pynciau hyfforddi

### Sesiynau Dysgu Byr

- Cyflwyniad i staff addysg ar PACE

### Y Sylfeini

- Gwasanaethau Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd a'r Fro
- Iechyd Meddwl a Niwroamrywiaeth*
- Deall trallod ac ymateb iddo
- Dysgu am Iechyd Meddwl drwy lens Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Cynradd)
- Dysgu am Iechyd Meddwl drwy lens Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Uwchradd)

### Adeiladu Gwybodaeth

- Gwreiddio PACE yn yr ystafell ddosbarth
- Deall ac ymateb i hunan-niweidio
- Cynllunio diogelwch ar gyfer staff addysg
- Rheoli pontio a diweddu yn dda *

### Pecyn Cymorth Therapiwtig

- Osgoi'r Ysgol ar Sail Gorbryder; dull unigolyddol
- Coeden Bywyd
- Pethau Rhyfedd yw Teimladau (Rhan 1 - Defnyddio Adrodd Straeon i adeiladu Sgiliau Llythrennedd Emosiynol)
- Pethau Rhyfedd yw Teimladau (Rhan 2 - Dosbarth Meistr Adrodd Straeon)

* Yn cael eu datblygu, yn barod i'w cyflwyno yn 2023

Gall y gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion hefyd argymell hyfforddiant gan wasanaethau eraill gan gynnwys asiantaethau iechyd, addysg neu drydydd sector.

Emotional Wellbeing & Mental Health
Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl
CYPF Children, Young People & Family Health Services
PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Proses Cais am Gymorth

(Os oes angen am asesiad wedi ei amlygu mewn ymgynghoriad)

## 4 Asesu

**Pam?**
Datblygu dealltwriaeth o'r cymorth a allai fod yn ddefnyddiol i ddysgwr penodol, a phwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r cymorth hwn.

**Pwy?**
Bydd yr Ymarferydd Mewngymorth Ysgolion a ddyrannwyd yn cwrdd â'r dysgwr yn uniongyrchol a/neu rieni/gofalwyr y dysgwr. Gellir hefyd wahodd gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r dysgwr neu deulu'r dysgwr i gymryd rhan.

**Ble a phryd?**
Ar amser ac mewn lleoliad addas wedi'i drefnu gan yr ymarferydd Mewngymorth Ysgolion a chyswllt lleoliad addysg allweddol.

### Beth fydd yn digwydd?

Cyfarfod gyda'r dysgwr i drafod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, yr heriau maen nhw'n eu hwynebu ar hyn o bryd, a sut y gallai Mewngymorth Ysgolion helpu. Gellir hefyd wahodd rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r dysgwr neu'r teulu i gymryd rhan. Gallai hyn fod mewn un eisteddiad, neu efallai y bydd mwy nag un cyfarfod i sicrhau dealltwriaeth lawn er mwyn creu'r cynllun gorau wrth symud ymlaen.

### Beth allai'r canlyniad fod?

- Gwaith grŵp
- Ymyrraeth un wrth un fer
- Cymorth i ddysgwr neu'r teulu i gael mynediad i wasanaeth mwy addas

## Gwaith Grŵp

Mae'r gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion wedi datblygu dewis o grwpiau lles lle mae dysgwyr yn gallu dod at ei gilydd a dysgu ffyrdd o oresgyn heriau emosiynol ac iechyd meddwl cyffredin.

Mae gan y grwpiau bwnc/thema benodol, ac mae'n para nifer penodol o sesiynau, rhwng 4 a 6 fel arfer. Fel rhan o'r cyfarfodydd blaenoriaethu, bydd lleoliadau addysg yn gallu dewis y grŵp(iau) y maent yn teimlo fydd o'r budd mwyaf i'w dysgwyr.

**Grwpiau y gallwn eu darparu:**

Deall a Delio gyda Gorbryder
Deall a Delio gyda Hwyliau
Adeiladu Hyder a Hunan-barch
Pethau Rhyfedd yw Teimladau
Coeden bywyd
Rheoli'r emosiynau mawr

## Un-wrth-Un

**Beth fydd yn digwydd?**
Os, ar ôl asesu, bydd yr ymarferydd Mewngymorth yn teimlo nad yw gwaith grŵp yn debygol o ddiwallu anghenion y dysgwr, efallai y byddant yn hytrach yn derbyn ymyrraeth un-wrth-un fer, yn gweithio'n uniongyrchol gydag un o'r ymarferwyr Mewngymorth a ddyrannwyd.

**Sut olwg fydd arno?**
Cytunir ar ffocws y gwaith gyda'r person ifanc a'r ymarferydd, a bydd yn seiliedig ar y wybodaeth a gafwyd o'r ymgynghoriad a'r asesiad cychwynnol. Gall y sesiynau olygu cwblhau cynnwys y grŵp ar sail un-wrth-un, neu gallai fod ymyrraeth bwrpasol wedi ei datblygu yn unol â'r anghenion penodol i ddysgwr.

**Gallwn gynnig cymorth gyda:**
Gorbryder
Hwyliau isel
Hunan-niweidio
Hyder a hunan-barc
Rheoli Emosiynau

# Cymorth ychwanegol

Bydd gan eich tîm Ardal Mewngymorth Ysgolion yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch orau i allu cefnogi eich ysgol.  Os nad ydych yn siŵr pwy yw eich tîm chi, mae rhestr gyfoes ar y wefan Mewngymorth Ysgolion.

Os ydych chi'n poeni am berson ifanc, ac nad ydych yn teimlo y gall eich pryder aros tan y tro nesaf y bydd eich Ymarferwyr Mewngymorth yn eich ysgol, **gallwch gael ymgynghoriad ac arweiniad gan y llinell gyngor Un Pwynt Mynediad (UPM) ar;**

**02921 836730 rhwng 10am a 2pm dydd Llun – dydd Gwener**

Yr Un Pwynt Mynediad (UPM) yw'r pwynt mynediad ar gyfer atgyfeiriadau at wasanaethau Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl BIP Caerdydd a'r Fro. Mae dwy elfen i'r UPM:

- Prosesu atgyfeiriadau, brysbennu a gwneud argymhellion / cyfeirio
- Darparu ymgynghoriadau ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn gweithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth i'w chynnwys mewn atgyfeiriad, ewch i'r Tudalen UPM ar ein gwefan.

# Y wybodaeth ddiweddaraf

Y ffordd orau o gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yw trwy gofrestru ar gyfer y Cylchlythyr Mewngymorth Ysgolion

Ffurflen ar gael trwy god QR

Gallwch gysylltu â ni ar Schoolinreach.cav@wales.nhs.uk gydag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau cyffredinol ac mae rhagor o wybodaeth am ein gwasanaeth ar wefan y gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion

## Cyfeiriadau / Darllen Pellach


- Gwerthusiad Rhaglen Beilot Mewngymorth Ysgolion y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) Adroddiad terfynol. Crynodeb Gweithredol (llyw.cymru)
- Fframwaith NEST | NYTH - Cydweithredfa Iechyd GIG Cymru


Ewch i www.cavyoungwellbeing.wales am wybodaeth ar Les Emosiynol ac Iechyd Meddwl ac adnoddau Iechyd Meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol.